# Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau

Canllawiau i Athrawon ac Aseswyr

## Crynodeb gweithredol

Er bod y posibilrwydd o fyfyrwyr yn camddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn rhywbeth newydd, nid felly'r rhan fwyaf o'r ffyrdd i atal hynny a lliniaru'r risgiau cysylltiedig; bydd mesurau ar waith sydd wedi hen ennill eu plwyf mewn canolfannau yn barod i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cyflwyno eu gwaith annibynnol eu hunain i'w asesu ac adnabod camymddwyn posibl. Bwriad y canllawiau hyn yw atgoffa athrawon ac aseswyr ynghylch arfer gorau yn y maes hwn, a'r defnydd ohono yng nghyd-destun defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA).

Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r gofynion canlynol:

- Fel yr arfer, ac yn unol ag adran 5.3(g) dogfen y CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations/), **rhaid i'r holl waith a gyflwynir i'w asesu mewn cymhwyster fod yn waith y myfyriwr ei hun yn unig;**
- Bydd myfyrwyr sy'n camddefnyddio DA yn y fath fodd fel nad yw'r gwaith maen nhw'n ei gyflwyno i'w asesu yn waith iddyn nhw wedi camymddwyn, yn unol â rheoliadau'r CGC, a gallan nhw gael eu cosbi'n llym am hynny;
- Rhaid i fyfyrwyr a staff canolfannau fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n perthyn i ddefnydido DA a rhaid iddyn nhw fod yn gwbl glir beth yw camymddwyn;
- Rhaid i fyfyrwyr wneud yn sîwr eu bod yn gallu dangos mai eu gwaith nhw eu hunain yw'r gwaith maen nhw'n ei gyflwyno i'w asesu. Os atgynhyrchir unrhyw rannau o'u gwaith yn uniongyrchol o ymatebion wedi'u cynhyrchu drwy DA, yna rhaid i'r myfyriwr enwi'r rhannau hynny. Rhaid iddyn nhw ddeall hefyd na fydd hyn yn caniatáu iddyn nhw ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf marcio yn annibynnol. Oherwydd hynny, ni fyddan nhw'n cael eu gwobrwyo (gweler yr adran *Cydnabod y Defnydd o DE* isod).
- Dylai athrawon ac aseswyr ond derbyn gwaith i'w asesu sy'n waith yr ymgeiswyr eu hunain yn eu barn nhw (yn unol ag adran 5.3(g) dogfen y CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy;* ac
- Os oes gan athrawon amheuon ynghylch dilysrwydd gwaith myfyrwyr a gyflwynwyd i'w asesu (er enghraifft, eu bod yn amau bod rhannau ohono wedi'i gynhyrchu gan DA ond heb gydnabod hynny), yna rhaid iddyn nhw ymchwilio a gweithredu fel y bo'n briodol.

Sefydlwyd dulliau adnabod, adrodd yn ôl am ac ymchwilio i gamymddwyn ar ran myfyrwyr gan staff, arholwyr a chymedrolwyr cyrff dyfarnu'r CGC, ac mae hyn yn cynnwys camddefnyddio DA.

Mae cyrff dyfarnu'r CGC yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn a byddan nhw'n diweddaru'r canllawiau hyn pan fo'n briodol gwneud hynny.

Awdur: PHOI — Mawrth 2023
Cymeradwywr: Grŵp Camymddwyn y CGC — f1.11

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr asesiadau mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddyn nhw | tudalen # |
| Beth yw defnydd o DA a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau? | tudalen # |
| Beth yw camddefnyddio DA? | tudalen # |
| Ymgysylltu a thrafod DA mewn canolfannau | tudalen # |
| Cydnabod defnydd o DA | tudalen # |
| Ffyrdd eraill o atal camddefnydd | tudalen # |
| Adnabod camddefnydd | tudalen # |
| Adrodd yn ôl | tudalen # |
| Gweithredoedd Cyrff Dyfarnu | tudalen # |


## Yr asesiadau mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddyn nhw

Mae myfyrwyr dan oruchwyliaeth agos staff wrth gwblhau mwyafrif eu harholiadau a nifer mawr o asesiadau eraill. Mae'r mynediad i ddeunyddiau sydd wedi'u caniatáu yn gyfyngedig ac nid oes hawl defnyddio'r rhyngrwyd. Ni fydd datblygiadau yn y maes DA yn effeithio ar ddarpariaeth yr asesiadau hyn gan na fydd myfyrwyr yn gallu defnyddio dulliau o'r fath wrth gwblhau'r asesiadau hyn.

Caiff mynediad i'r rhyngrwyd ei ganiatáu yng nghamau paratoi, ymchwil neu gynhyrchu rhai asesiadau. Asesiadau Di-arholiad Cymwysterau Cyffredinol, gwaith cwrs ac asesiadau mewnol fydd mwyafrif yr asesiadau hyn. Bwriad pennaf y ddogfen hon yw rhoi arweiniad o ran yr asesiadau hyn.

## Beth yw defnydd o DA a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau?

Mae defnydd o DA yn cyfeirio at y defnydd o ddulliau DA i gael gwybodaeth a chynnwys y gellid eu defnyddio mewn gwaith sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer asesiadau sy'n arwain at gymwysterau.

Mae'r dewis o ddulliau DA, a'r gallu sydd ganddyn nhw, yn rhywbeth sy'n debygol o ehangu'n fawr yn y dyfodol agos. Oherwydd hynny mae camddefnyddio dulliau DA mewn perthynas ag asesiadau cymwysterau ar unrhyw bryd yn gamymddwyn. Dylai athrawon a myfyrwyr fod yn ymwybodol hefyd bod dulliau DA yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu o hyd a bod cyfyngiadau ar eu defnydd yn aml, megis cynhyrchu cynnwys sy'n anghywir neu'n amhriodol.

Math o ddull DA yw'r bot sgwrsio DA sy'n cynhyrchu testun mewn ymateb i ysgogiadau a chwestiynau'r defnyddiwr. Gall defnyddwyr ofyn cwestiynau dilynol neu ofyn i'r bot sgwrsio ddiwygio'r ymatebion a ddarparwyd yn barod.Mae'r bot sgwrsio DA yn ymateb i ysgogiadau sy'n seiliedig ar batrymau yn y setiau data (model iaith fawr) maen nhw wedi derbyn hyfforddiant ynddyn nhw. Mae'r ymatebion a gynhyrchir ganddyn nhw yn debygol yn ystadegol o fod yn berthnasol ac yn briodol. Gall y bot sgwrsio gwblhau tasgau fel y rhai sy'n dilyn:

- Ateb cwestiynau
- Dadansoddi, gwella, a chrynhoi testun
- Awduro traethodau, erthyglau, ffuglen, a darnau ffeithiol
- Ysgrifennu cod cyfrifiadurol
- Cyfieithu testun o un iaith i iaith arall
- Cynhyrchu syniadau, ysgogiadau, neu awgrymiadau newydd ar gyfer testun neu thema benodol
- Cynhyrchu testun gyda phriodoleddau penodol, megis tôn, teimlad, neu ffurfioldeb

Ymhlith y botiau sgwrsio DA sydd ar gael ar hyn o bryd y mae:

- ChatGPT (https://chat.openai.com)

- Jenni AI (https://jenni.ai)
- Jasper AI (https://www.jasper.ai/)
- Writesonic (https://writesonic.com/chat/)
- Bloomai (https://huggingface.co/bigscience/bloom)
- Google Bard

Mae'n bosibl defnyddio dulliau DA i gynhyrchu delweddau hefyd, megis:

- Midjourney (https://midjourney.com/showcase/top/)
- Stable Diffusion (https://stablediffusionweb.com/)
- Dalle-E 2 (OpenAI) (https://openai.com/dall-e-2/)

Gall fod risg sylweddol i'r defnydd o'r bot sgwrsio DA os yw'n cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr sy'n cwblhau asesiadau cymwysterau. Fel y nodwyd uchod, cawsant eu datblygu i gynhyrchu ymatebion yn seiliedig ar y tebygolrwydd ystadegol y bydd yr iaith a ddewiswyd yn ymateb priodol ac felly nid yw'n bosibl dibynnu ar yr ymatebion. Yn aml mae'r bot sgwrsio DA yn cynhyrchu atebion sy'n rhyw fras argyhoeddi ond yn cynnwys gwybodaeth sy'n anghywir neu â thuedd. Nodwyd bod yr atebion sydd wedi'u darparu gan rai botiau sgwrsio DA yn beryglus a niweidiol a gall rhai hefyd gynhyrchu cyfeirnodau ffug i lyfrau/erthyglau gan bobl real neu ffug.

## Beth yw camddefnyddio DA?

Fel yr arfer, ac yn unol ag adran 5.3 (g) dogfen y CGC Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy (https://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations/), rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith eu hunain yn unig i'w asesu. Mae hyn yn golygu bod angen sicrhau bod y cynnyrch gorffenedig wedi'i ysgrifennu yn eu geiriau nhw eu hunain. Ni ddylai fod wedi'i gopio neu ei aralleirio o ffynhonnell arall megis dull DA, a dylai'r cynnwys adlewyrchu eu gwaith annibynnol nhw eu hunain. Disgwylir i fyfyrwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn ôl gofynion y cymhwyster dan sylw a'r hyn sydd wedi'i nodi ym manyleb y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys dangos eu perfformiad mewn perthynas ag amcanion asesu'r pwnc sy'n berthnasol i'r cwestiwn (cwestiynau) neu dasgau eraill a osodwyd i'r myfyrwyr. Mae'n debygol y bydd unrhyw ddefnydd o ddulliau DA sy'n golygu nad yw myfyrwyr wedi dangos eu cyrhaeddiad eu hunain yn annibynnol yn cael ei ystyried yn gamymddwyn. Er y gall DA ennill ei blwyf mewn gweithleoedd yn y dyfodol, at ddibenion dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer cymwysterau, mae'n bwysig er mwyn eu dilyniant i fyfyrwyr beidio â gorddibynnu ar offer megis DA. Dylai myfyrwyr ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r pynciau maen nhw'n eu hastudio.

Dim ond pan fo amodau'r asesiad yn caniatáu defnyddio'r rhyngrwyd a lle gall y myfyriwr ddangos bod unrhyw gyflwyniad terfynol yn gynnyrch ei waith annibynnol a'i feddwl annibynnol ei hun y dylid defnyddio dulliau DA.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gamddefnyddio DA ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- Copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan DA fel nad yw'r gwaith bellach yn waith y myfyriwr ei hun
- Copïo neu aralleirio ymatebion cyfan o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan DA
- Defnyddio DA i gwblhau rhannau o'r asesiad fel nad yw'r gwaith yn adlewyrchu gwaith y myfyriwr ei hun, ei ddadansoddi, ei werthuso na'i gyfrifiadau.
- Methiant i gydnabod y defnydd o ddulliau DA pan fyddan nhw wedi'u defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth
- Cydnabyddiaeth anghyflawn neu wael o ddulliau DA

- Cyflwyno gwaith sy'n cynnwys cyfeirnodau neu lyfryddiaethau sy'n fwriadol anghyflawn neu gamarweiniol.

Mae camddefnyddio DA yn golygu camymddwyn yn ôl diffiniad dogfen y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau* ([https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/](https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/)). Ymhlith y sancsiynau camymddwyn sydd ar gael am dramgwyddo fel *'gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd'* a *'llên-ladrad'* mae diarddeliad a gwaharddiad rhag cymryd cymwysterau am nifer o flynyddoedd. Gall effeithio ar farciau myfyrwyr hefyd os ydyn nhw wedi dibynnu ar DA i gwblhau asesiad ac, fel y nodwyd uchod, os nad yw'r cyrhaeddiad a ddangoswyd ganddyn nhw o ran gofynion y cymhwyster yn adlewyrchiad cywir o'u gwaith eu hunain.

## Ymgysylltu a thrafod DA mewn canolfannau

Bydd polisïau a gweithdrefnau wedi'u cytuno ynghylch asesu ar waith yn y canolfannau yn barod er mwyn sicrhau dilysrwydd asesiadau. Bellach rhaid i ganolfannau sicrhau bod y dogfennau hyn yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio DA.

Rhaid i athrawon, aseswyr a staff eraill drafod y defnydd o DA a chytuno sut maen nhw'n bwriadu gweithredu i reoli defnydd myfyrwyr o DA yn eu hysgol, coleg neu ganolfan arholiadau. Rhaid i ganolfannau dynnu sylw myfyrwyr at ddefnydd priodol ac amhriodol o DA, risgiau defnyddio DA, a chanlyniadau posibl defnyddio DA yn amhriodol mewn asesiad cymhwyster. Dylen nhw dynnu sylw myfyrwyr hefyd at sut mae'r ganolfan yn gweithredu o ran llên-ladrad a chanlyniadau camymddwyn. Dylai canolfannau ystyried cyfathrebu â rhieni er mwyn iddyn nhw fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r materion a sicrhau eu bod yn cefnogi'r ganolfan o ran sut mae'n gweithredu.

Dylai canolfannau wneud y canlynol:

a) Esbonio pa mor bwysig ydyw bod myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith annibynnol eu hunain (canlyniad eu hymdrechion eu hunain, ymchwil annibynnol, ac ati) ar gyfer asesiadau a phwysleisio wrthyn nhw a'u rhieni/gofalwyr beth yw risgiau camymddwyn;
b) Diweddaru polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan i gydnabod y defnydd o DA (e.e. beth ydyw, risgiau ei ddefnyddio, beth yw camddefnyddio DA, sut bydd hyn yn cael ei drin fel camymddwyn, pa bryd y gellid ei ddefnydio a sut y dylid cydnabod y defnydd hwnnw) – yn syml drwy gyfeirnodi'r ddogfen hon;
c) Sicrhau bod polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan yn cynnwys canllawiau clir ar sut dylai myfyrwyr gyfeirnodi'n briodol (gan gynnwys gwefannau);
d) Sicrhau bod polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan yn cynnwys arweiniad clir ar sut dylai myfyrwyr gydnabod unrhyw ddefnydd o DA er mwyn osgoi ei gamddefnyddio (gweler yr adran isod ar gydnabod y defnydd o DA);
e) Sicrhau bod athrawon ac aseswyr yn gyfarwydd â dulliau DA, eu risgiau a dulliau canfod DA (gweler yr adrannau *Beth yw defnydd o DA a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau?* a *Beth yw camddefnydd o DA?);*
f) Ystyried p'un a ddylai fod angen i fyfyrwyr lofnodi datganiad i ddweud eu bod wedi deall beth yw ystyr camddefnyddio DA, a bod hynny wedi'i wahardd yn y cytundeb dysgu maen nhw'n ei lofnodi wrth gofrestru mewn rhai canolfannau;
g) Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn copi o'r ddogfen CGC briodol *Gwybodaeth i Ymgeiswyr* ([www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents](www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents)) a'u bod yn deall y ddogfen honno;
h) Ategu wrth y myfyrwyr beth yw arwyddocâd eu datganiad (electronig) lle maen nhw'n cadarnhau bod y gwaith sy'n cael ei gyflwyno ganddyn nhw yn waith iddyn nhw eu hunain yn unig, canlyniadau datganiad ffug, a'u bod yn deall ac wedi dilyn y gofynion ar gyfer y pwnc; ac

i) Atgoffa myfyrwyr bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu gan staff, arholwyr a chymedrolwyr cyrff dyfarnu ar gyfer adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn (gweler yr adran *Gweithredoedd Cyrff Dyfarnu* isod).

## Cydnabod defnydd o DA

Mae'n bwysig o hyd bod myfyrwyr yn deall pa mor bwysig yw cyfeirnodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw wrth gynhyrchu gwaith ar gyfer asesiad, a'u bod yn gwybod sut i wneud hyn. Mae cyfeirnodi priodol yn ffordd o ddangos uniondeb academaidd ac yn allweddol o ran cynnal uniondeb asesiadau. Os bydd myfyriwr yn defnyddio dull DA sy'n rhoi manylion y ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddo wrth gynhyrchu cynnwys, yna rhaid i'r myfyriwr wirio'r ffynonellau hyn a'u cyfeirnodi yn ei waith yn y ffordd arferol. Lle nad yw dull DA yn darparu manylion o'r fath, dylai myfyrwyr sicrhau eu bod yn gwirio'r cynnwys a gynhyrchwyd gan DA yn annibynnol – ac yna cyfeirnodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw.

Rhaid i fyfyrwyr gydnabod eu bod wedi'u defnyddio DA os ydyn nhw wedi'i ddefnyddio o gwbl. Mae'n bosibl wedyn i athrawon ac aseswyr adolygu'r defnydd o DA a ph'un a oedd y defnydd hwnnw'n briodol yng nghyd-destun yr asesiad penodol hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ystyried nad yw'r un craffu academaidd yn digwydd ar gynnwys a gynhyrchwyd gan DA yn yr un modd â ffynonellau cyhoeddedig eraill.

Lle defnyddiwyd dulliau DA fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i'r myfyriwr ddangos wrth gydnabod hynny beth oedd enw'r ffynhonnell DA a ddefnyddiwyd gan ddangos hefyd y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2023. Rhaid i'r myfyriwr, lle y bo'n bosibl gwneud hynny, gadw copi o'r cwestiwn (cwestiynau) a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun er enghraifft). Rhaid cyflwyno hyn gyda'r gwaith er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith a'r cynnwys a gynhyrchwyd gan DA. Os nad yw hyn yn cael ei gyflwyno, bydd angen i'r athro/aseswr edrych ar bolisi camymddwyn y ganolfan i weld pa gamau i'w dilyn nesaf gan weithredu hefyd i sicrhau bod y gwaith yn waith y myfyriwr ei hun.

Mae canllawiau'r CGC ynghylch cyfeirnodi i'w gweld yn y canlynol:

- *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs* (https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2022/08/Coursework_ICC_22-23_FINAL.pdf)
- *Llên-ladrad mewn Asesiadau* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/plagiarism-in-assessments---guidance-for-teachersassessors/)
- Y dogfennau Gwybodaeth i Ymgeiswyr (https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents)

Pethau eraill i'w hystyried o ran cydnabod y defnydd o DA yw:

a) Atgoffa myfyrwyr y gall cyfeirnodi gwael, aralleirio a chopio adrannau o destun fod yn gamymddwyn, yr un fath ag unrhyw ffynhonnell arall ac y gall hynny gael ei gosbi'n llym gan gynnwys diarddel yr ymgeisydd. Yng nghyd-destun y defnydd o DA, rhaid i fyfyrwyr gael gwybod beth sy'n dderbyniol a beth sydd ddim yn dderbyniol o ran cydnabod cynnwys DA a'r defnydd o ffynonellau DA. Er enghraifft, byddai'n annerbyniol cynnwys y cyfeirnod 'AI' neu 'ChatGPT' yn unig, yn yr un modd ag y byddai'n annerbyniol nodi 'Llyfrgell' yn hytrach na theitl y llyfr, enw'r awdur, y bennod a'r dudalen;

b) Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd, os ydyn nhw'n defnyddio DA mewn ffordd sy'n golygu nad ydyn nhw wedi bodloni'r gofynion asesu yn annibynnol, bod hynny'n debygol o arwain at

ddyfarnu marciau isel. Fyddan nhw ddim wedyn yn derbyn credyd am gydnabod y defnydd o DA.

## Ffyrdd eraill o atal camddefnydd

Er y gall fod manteision i ddefnyddio DA mewn rhai sefyllfaoedd, mae posibilrwydd hefyd y gall myfyrwyr ei gamddefnyddio, naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol. Gall camddefnyddio DA, mewn ffordd sy'n cynnwys y myfyriwr yn cyflwyno gwaith i'w asesu ar gyfer cymhwyster nad yw'n waith iddyn nhw, gael ei ystyried yn fath o lên-ladrad. Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch llên-ladrad gan y CGC. Mae'r ddogfen hon yn dweud beth yw llên-ladrad, sut i'w atal, a sut i'w ganfod (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/plagiarism-in-assessments---guidance-for-teachersassessors/). Rhaid i athrawon ac aseswyr fod yn sicr bod y gwaith maen nhw'n ei dderbyn i'w asesu a'i farcio yn waith dilys y myfyriwr ei hun. Mae angen y rhain i gadarnhau hyn yn ystod y broses asesu.

I atal camddefnydd, yr hyn sy'n allweddol mae'n debyg yw addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r staff a'r myfyrwyr. Dyma rai ffyrdd o weithredu (bydd llawer o ganolfannau'n gwneud hyn yn barod gan nad yw'r gofynion yn rhai newydd):

a) Ystyried cyfyngu ar fynediad i ddulliau DA ar-lein ar ddyfeisiau a rhwydweithiau'r ganolfan;
b) Sicrhau bod mynediad wedi'i gyfyngu i ddulliau DA ar-lein ar ddyfeisiau'r ganolfan a ddefnyddir ar gyfer arholiadau;
c) Pennu terfynau amser rhesymol ar gyfer cyflwyno gwaith ac atgoffa am hynny;
d) Lle bynnag y bo'n briodol, dyrannu amser i gyflawni cyfrannau digonol o waith dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r athro/athrawon ddilysu gwaith cyflawn pob myfyriwr yn hyderus;
e) Archwilio ar adegau gwahanol yn y broses o gynhyrchu'r gwaith er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo mewn ffordd drefnus ac amserol a bod y gwaith a gyflwynir yn dangos ei fod wedi parhau'n naturiol o'r camau cynharach;
f) Cyflwyno gweithgareddau ystafell ddosbarth sy'n defnyddio'r lefel gwybodaeth/dealltwriaeth a feithriniwyd yn ystod y cwrs sy'n golygu bod yr athro/athrawes yn gallu bod yn hyderus yn nealltwriaeth y myfyriwr o'r deunydd;
g) Ystyried p'un a yw'n briodol ac yn ddefnyddiol i drafod â myfyrwyr ar lafar am eu gwaith. Bwriad gwneud hyn yw penderfynu a ydyn nhw'n deall y gwaith hwnnw a'i fod yn amlwg yn waith maen nhw wedi'i gyflawni'n annibynnol eu hunain;
h) Peidio â derbyn unrhyw waith y mae staff yn amau sydd wedi dod o ddulliau DA heb gydnabyddiaeth iawn neu ei fod wedi'i lên-ladrata fel arall, heb ymchwilio ymhellach i'r mater. Byddai gwneud hynny'n annog lledaenu'r arfer hwn ac mae hynny'n debygol o gael ei ystyried yn gamymddwyn gan staff a gall fod sancsiynau am hynny.
i) Cyhoeddi tasgau ar gyfer aseiniadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan sydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn amserol, cyfredol a phenodol. Dylai fod gofyn creu cynnwys felly sy'n llai tebygol o fod o fewn cyrraedd i fodelau DA sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio data hanesyddol.

## Adnabod camddefnydd

I adnabod y ffaith bod myfyrwyr wedi camddefnyddio DA, mae angen i athrawon ddefnyddio'r un sgiliau a thechnegau arsylwi ag y maen nhw'n eu defnyddio yn barod i sicrhau bod gwaith unrhyw fyfyriwr yn waith dilys iddyn nhw eu hunain. Mae'n bosibl defnyddio rhai dulliau penodol hefyd. Mae'r dulliau gwahanol hyn yn cael eu harchwilio ymhellach isod.

**Cymharu â gwaith blaenorol**

Wrth adolygu darn o waith penodol i sicrhau ei fod yn ddilys, mae'n syniad da ei gymharu â gwaith arall a grewyd gan y myfyriwr. Lle mae'r gwaith yn waith ysgrifenedig, gellir talu sylw i'r nodweddion canlynol:

- Sillafu ac atalnodi
- Defnydd o ramadeg
- Arddull a chywair yr ysgrifennu
- Geirfa
- Cymhlethdod a chydlyniant
- Dealltwriaeth a lefel gweithio yn gyffredinol
- Y dull cynhyrchu (h.y. p'un ai'n ysgrifenedig neu'n defnyddio prosesydd geiriau)

Gallai athrawon ystyried cymharu gwaith sydd newydd ei gyflwyno â gwaith a gwblhawyd gan y myfyriwr yn yr ystafell ddosbarth, neu dan amodau dan oruchwyliaeth.

**Dangosyddion posibl o'r defnydd o DA**
Gallai gweld y canlynol yng ngwaith myfyriwr fod yn arwydd eu bod wedi camddefnyddio DA:

a) Defnydd diofyn o sillafu, arian cyfred a thermau Americanaidd a lleoleiddio arall.*
b) Defnydd diofyn o iaith neu eirfa sydd efallai ddim yn briodol i lefel y cymhwyster*
c) Diffyg dyfyniadau uniongyrchol a/neu ddefnydd o gyfeirnodau pan fo'r rhain yn ofynnol/yn ddisgwyliedig
d) Cynnwys cyfeirnodau nad oes modd eu canfod neu eu dilysu (mae rhai dulliau DA wedi darparu cyfeirnodau ffug i lyfrau neu erthyglau gan awduron go iawn)
e) Diffyg cyfeiriad at ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad penodol (gan gyfleu adeg crynhoi ffynhonnell ddata'r dull DA), gall hynny fod yn rhywbeth i dalu sylw iddo mewn rhai pynciau
f) Achosion o ddefnydd anghywir/anghyson o safbwynt y person cyntaf a'r trydydd person pan nad yw testun a gynhyrchwyd wedi'i newid
g) Gwahaniaeth yn arddull yr iaith a ddefnyddiwyd o gymharu â'r hyn mae'r myfyriwr yn ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu mewn gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol
h) Amrywiad yn arddull yr iaith sydd i'w weld mewn darn o waith, os yw myfyriwr wedi cymryd darnau sylweddol o destun o DA a'u diwygio wedyn
i) Diffyg graffiau/tablau data/cymhorthion gweledol pan fyddai disgwyl i'r rhain fod yn bresennol
j) Diffyg gwybodaeth leol neu destunol penodol
k) Cynnwys sy'n fwy generig o ran ei natur, a ddim yn ymwneud â'r myfyriwr ei hun, neu dasg neu senario arbenigol, os yw hyn yn ofynnol/yn ddisgwyliedig
l) Rhybuddion neu amodau a gynhyrchwyd gan DA wedi'u cynnwys yn ddiofal gan y myfyriwr sy'n amlygu cyfyngiadau ei allu, neu natur ddamcaniaethol yr allbwn mae'n ei roi
m) Cyflwyno gwaith myfyriwr ar ffurf wedi'i deipio, a'r myfyriwr fel arfer yn cyflwyno gwaith mewn llawysgrifen
n) Defnyddio sawl gosodiad cloi drwy'r testun mewn ffordd anghyffredin, neu ailadrodd strwythur traethawd trosfwaol sawl gwaith mewn un traethawd hir. Gall hyn fod yn ganlyniad gofyn i DA gynhyrchu traethawd sawl gwaith i ychwanegu dyfnder, amrywiaeth neu i oresgyn y cyfyngiadau allbwn sy'n perthyn iddo
o) Cynnwys gosodiadau cryf sydd ddim yn dilyn yn rhesymegol neu osodiadau anghywir yn hyderus mewn cynnwys sy'n gydlynol fel arfer
p) Iaith hirwyntog neu hyperbolig sydd efallai ddim yn cyfateb i arddull arferol yr ymgeisydd

*Cofiwch, fodd bynnag, bod modd rhoi cyfarwyddyd i bot sgwrsio DA i ddefnyddio ieithoedd a lefelau hyfedredd gwahanol wrth gynhyrchu cynnwys.
Fodd bynnag, bydd rhai dulliau DA yn cynhyrchu dyfyniadau a chyfeirnodau.

**Canfod yn awtomataidd**

Gan ei fod yn fodel iaith fawr, mae'r bot sgwrsio DA yn gweithredu drwy fynd ati i 'ddyfalu' y gair nesaf mwyaf tebygol mewn dilyniant yn ôl y cyd-destun, gan ddefnyddio testun o'i set data. Mae hyn yn arwain at gynhyrchu dilyniannau geiriau y gellir eu rhagweld yn ystadegol ar gyfartaledd o ffynonellau wedi'u hagregu. Gall hyn gyferbynnu â darn o waith sydd wedi'i ysgrifennu'n naturiol gan y bydd darn felly yn aml yn defnyddio geiriau nad yw mor hawdd eu rhagweld. Mae sawl rhaglen a gwasanaeth yn defnyddio'r amrywiaeth hon i ddadansoddi cynnwys ysgrifenedig yn ystadegol a phennu'r tebygolrwydd ei fod wedi'i gynhyrchu gan DA:

- OpenAI Classifier (https://openai.com/blog/new-ai-classifier-for-indicating-ai-written-text/)
- GPTZero (https://gptzero.me/)
- The Giant Language Model Test Room (GLTR) (http://gltr.io/dist/)

Yn ogystal, mae cyrff dyfarnu'r CGC yn ymwybodol y bydd canfod DA yn cael ei ychwanegu cyn hir at yr erfyn presennol Turnitin Originality (https://www.turnitin.com/products/originality). Mae'r erfyn hwn yn cynnwys adolygiad DA o waith myfyriwr, yn adolygu portffolio o dystiolaeth a bydd, yn ôl yr hyn yr ydym yn ei ddeall, yn dangos pa mor debygol ydyw bod DA wedi'i ddefnyddio.

Gellid defnyddio'r dull penodol hwn i wirio gwaith myfyrwyr a/neu i gadarnhau pryderon ynghylch dilysrwydd gwaith myfyrwyr. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y dulliau uchod, gan fod eu sgorau wedi'u seilio ar ba mor rhagweladwy yw geiriau, yn rhoi sgorau is am gynnwys wedi'i gynhyrchu drwy DA sydd wedi'i newid wedyn gan fyfyrwyr. Gall ansawdd y dulliau canfod hyn amrywio a bydd DA a'r modd o'i ganfod yn parhau i esblygu. Dylai'r defnydd o ddulliau canfod fod yn rhan o ddull cyfannol o ystyried dilysrwydd gwaith myfyrwyr; dylid ystyried yr holl wybodaeth hon wrth adolygu unrhyw bryderon ynghylch camymddwyn.

## Adrodd yn ôl

Os bydd eich amheuon yn cael eu cadarnhau a'r myfyriwr heb lofnodi'r datganiad dilysu eto, yna nid oes angen i'ch canolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu priodol am y camymddwyn. Gallwch chi ddatrys y mater hwn cyn llofnodi'r datganiadau.

Ni ddylai athrawon dderbyn gwaith sydd ddim yn waith y myfyriwr ei hun. Yn y pen draw, cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan yw sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cyflwyno gwaith nad yw'n ddilys.

Os bydd canolfan yn canfod neu'n amau bod camddefnydd o DA wedi bod a'r datganiad dilysu wedi'i lofnodi, yna rhaid adrodd yn ôl i'r corff dyfarnu perthnasol am yr achos. Mae manylion am y weithdrefn i'w cael yn nogfen y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau (*https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/).

## Gweithredoedd Cyrff Dyfarnu

Mae cyrff dyfarnu'r CGC yn sicrhau bod eu staff, cymedrolwyr ac arholwyr yn derbyn hyfforddiant priodol o ran adnabod camymddwyn ac mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer adrodd am ac ymchwilio i amheuon o gamymddwyn.

Os bydd cymedrolwr neu arholwr y corff dyfarnu yn amau bod DA wedi'i gamddefnyddio, neu os bydd myfyriwr neu aelod o'r cyhoedd wedi adrodd yn ôl am hyn, yna bydd manylion llawn yr honiad yn cael eu trosglwyddo yn ôl i'r ganolfan. Bydd y corff dyfarnu perthnasol yn cysylltu â Phennaeth y Ganolfan ynghylch camau nesaf yr ymchwiliad a sut y byddan nhw'n cael y dystiolaeth briodol. Yna bydd y corff dyfarnu yn ystyried yr achos ac, os bydd angen, yn gosod sancsiwn yn unol â'r sancsiynau sydd i'w cael yn y ddogfen CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau* (https://www.jcq.org.uk/exams-

office/malpractice/). Mae'r sancsiynau sy'n berthnasol yn achos myfyriwr yn llên-ladrata ac yn cyflwyno datganiad ffug o ddilysrwydd yn amrywio o rybuddio'r myfyriwr ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol i ddiarddel ac atal y myfyriwr hwnnw rhag cofrestru am un neu fwy o arholiadau am gyfnod penodol o amser.

Bydd cyrff dyfarnu yn gweithredu hefyd. Gall hyn gynnwys gosod sancsiynau os yw staff canolfannau yn gwybod eu bod yn derbyn, neu'n methu gwirio, gwaith nad yw'n ddilys ar gyfer asesiadau cymwysterau.